

Polisi Gwaith Dilydol a Sicrwydd

Teitl y polisi	Polisi Gwaith Dilydol a Sicrwydd
Awdur	Nia Roberts, Pennaeth Strategaeth, Polisi ac Ymgysylltu
Uwch-swyddog Cyfrifol	Alun Jones, Dirprwy Brif Weithredwr
Statws	Diwygiwyd Mai 2018
Fersiwn	2
Dyddiad adolygu	Mai 2019

Diben

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o wneud y canlynol:

1. cwblhau gwaith dilydol ar broblemau sy'n codi o'r arolygiadau, adolygiadau arbennig ac ymchwiliadau mae'n eu cynnal
2. ceisio sicrwydd am feysydd o bryder

Cwmpas

Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys gorfodi yn y sector annibynnol. Gellir dod o hyd i bolisi gorfodi ac uwchgyfeirio AGIC [yma](#).

Polisi

Cefndir

Mae AGIC yn derbyn gwybodaeth am ddarparwyr gofal iechyd mewn nifer o ffyrdd gwahanol, y gallai eu defnyddio i geisio cymryd camau gweithredu.

1. Mae AGIC yn cwblhau nifer fawr o arolygiadau, adolygiadau ac ymchwiliadau bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'r arolygiadau hyn yn arwain at ryw fath o gamau gwella neu'n nodi materion y mae angen i'r darparwr gofal iechyd fynd i'r afael â hwy.
2. Mae AGIC yn derbyn pryderon yn uniongyrchol gan gleifion, teuluoedd neu chwythwyr chwiban.

Polisi Gwaith Dilynol a Sicrwydd

3. Mae gan AGIC reolwyr perthynas a all, trwy eu gwaith gyda byrddau iechyd, ymddiriedolaethau neu ddarparwyr annibynnol, ganfod gwybodaeth sy'n peri pryder.

O ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael iddi, ni all AGIC, mewn pob achos, gwblhau arolygiad i wirio a gymerwyd camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion a phryderon. Ar ben hynny, ni ddylai darparwyr fod yn ddibynnol ar AGIC i gynnal arolygiad fel catalydd ar gyfer cyflawni unrhyw gamau gweithredu. Cyfrifoldeb y rheiny sy'n darparu a rheoli gofal iechyd ydyw i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Mae AGIC wedi datblygu amrediad o weithgareddau sy'n gweithredu fel modd o gael sicrwydd yr aethpwyd i'r afael â materion, bod materion wedi cael eu datrys, neu fod camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith. Mae'r papur hwn yn nodi'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i AGIC a'r amgylchiadau lle y bydd yn eu defnyddio. Mae crynodeb lefel uchel o'n dull wedi'i gynnwys yn ein methodoleg arolygu drosfwaol ar gyfer y ffordd y mae AGIC yn arolygu'r [GIG](#) a gwasanaethau [annibynnol](#).

Camau dilynol ar ôl arolygiad – y dull a ddefnyddir

Bydd AGIC yn dilyn y materion a godir o arolygiadau sydd wedi'u cwblhau mewn dwy ffordd allweddol:

1. Proses flynyddol / proses a drefnwyd

O dro i dro, mae AGIC yn gofyn i'r byrddau iechyd roi diweddariad ar yr holl gynlluniau gweithredu sydd heb eu rhoi ar waith. Mae byrddau iechyd yn endidau mawr ac mae hyn yn galluogi AGIC i weld nid yn unig pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar gamau unigol, ond yn ei galluogi hefyd i asesu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu o unrhyw broblemau a nodir ac na chaiff y problemau hyn eu hailadrodd yn rhywle arall o fewn y sefydliad (e.e. wardiau, unedau neu ysbytai eraill). Mae AGIC yn asesu pob ymateb a dderbyniwyd ac yn pennu a oes angen cynnal gweithgaredd dilynol penodol.

2. Gweithgareddau yn dilyn pob arolygiad

Polisi Gwaith Dilynol a Sicrwydd

Ar ôl cwblhau arolygiad a derbyn unrhyw gynllun gwella, bydd y rheolwr arolygu neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am arolygiad, adolygiad neu ymchwiliad yn ystyried a yw'r cam gweithredu y mae'r darparwr gofal iechyd yn ei gynnig yn rhoi sicrwydd i AGIC.

Os na fydd cynllun gwella sydd wedi'i gwblhau yn rhoi digon o sicrwydd i AGIC, caiff ei ddychwelyd at y darparwr gofal iechyd gyda chais am ragor o fanylder. Os na fydd cynllun gwella ar ôl arolygiad yn darparu digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC ar ôl tri chynnig, bydd AGIC yn uwchgyfeirio hyn.

Ar gyfer gwasanaethau'r GIG, gallai'r uwchgyfeirio hwn gynnwys amod fod arweinwyr gweithredol y gwasanaeth yn mynychu cyfarfod ag AGIC, ac, yn y pen draw, gellid uwchgyfeirio'r mater at Brif Weithredwr GIG Cymru. Os bydd bwrdd iechyd yn methu â rhoi digon o sicrwydd bod camau gwella'n cael eu cymryd, bydd hyn yn ffurfio rhan o gyfraniad AGIC at gyfarfodydd uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar gyfer gwasanaethau annibynnol, bydd yr uwchgyfeirio hwn yn cynnwys cyfarfod â darparwr y gwasanaeth, ac, yn y pen draw, arwain at ddileu, gwahardd neu osod amodau ar y cofrestrriad.

Pan ystyrir bod cynllun gwella sydd wedi'i gwblhau yn rhoi digon o sicrwydd, bydd y rheolwr arolygu yn ystyried pa gamau sydd eu hangen er mwyn cwblhau gwaith dilynol ar y materion a nodwyd yn ystod arolygiad.

Bydd opsiynau ar gyfer gweithgarwch dilynol yn cynnwys, ond ni fyddant yn gyfyngedig, i'r canlynol:

- Nid oes angen gweithgarwch dilynol
- Gwneud cais am ddiweddariad ar gyflwyno cynllun gwella
- Ymweliad galw heibio i wirio'r camau a gymerwyd
- Cwblhau arolygiad sy'n canolbwyntio ar y camau y mae angen eu cymryd*
- Cwblhau arolygiad llawn*
- Cyfeirio at asiantaeth arall (e.e. Swyddfa Archwilio Cymru, cyngorau iechyd cymuned)

Polisi Gwaith Dilynol a Sicrwydd

Darperir gwybodaeth gefnogol bellach ynghylch rhesymeg pob dull yn Nhabl 1 (Atodiad 1).

*Mae dwy ffordd o gwblhau arolygiad pwyslais penodol neu arolygiad llawn, yn dibynnu ar y prif feysydd y canolbwyntir arnynt. Gall hyn fod o fewn y canlynol:

- Yr un maes gwasanaeth a lleoliad â'r arolygiad gwreiddiol
- Maes gwasanaeth neu leoliad gwahanol i'r arolygiad gwreiddiol, e.e. archwilio'r problemau a godwyd yn ystod arolygiad o Ward X ar Ward Y i wirio a yw gwersi wedi cael eu rhannu

3. Adolygiadau arbennig a thematig

Ar ôl cwblhau unrhyw adolygiad arbennig neu thematig, rydym yn disgwyl y bydd y sefydliadau iechyd / rhanddeiliaid perthnasol yn llunio cynlluniau gwella.

Rydym fel arfer yn gwneud cais am gynlluniau gwella wedi'u diweddarau 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Rydym yn cwblhau gwaith dilynol ar argymhellion penodol eraill adolygiadau thematig mewn modd sy'n briodol i'r pwnc a'r math o argymhellion rydym yn eu gwneud – er enghraifft, trwy ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.

Pryderon eraill

- a. Pryderon a hysbyswyd AGIC amdanynt yn uniongyrchol

Nid yw AGIC yn ymchwilio'n rheolaidd i amgylchiadau penodol triniaeth claf unigol na phryderon a godir gan unigolion. Er nad ein rôl yw ymchwilio'n rheolaidd i bryderon unigol, byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth rydym yn ei derbyn ac yn ei defnyddio i lywio unrhyw waith y byddwn yn ei gwblhau yn y dyfodol – yn benodol, lle y bo patrwm o ran pryderon mewn ysbyty neu wasanaeth.

Pan fyddwn yn derbyn pryderon, byddwn yn eu hasesu o ran risg. Ymatebir i'r pryderon risg uchaf, sy'n ymwneud â phroblemau sylweddol o ran diogelwch cleifion, o fewn dau ddiwrnod gwaith. Bydd pryderon a gaiff eu hasesu ar y lefel hon fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- bygythiad cyfredol neu agos clir i ddiogelwch cleifion (er enghraifft, pryder diogelu posibl mewn perthynas â chlaf presennol mewn ysbyty/lleoliad)
- honiadau o ymddygiad troseddol y mae angen i AGIC gysylltu â'r heddlu amdanynt ar unwaith
- pryderon yn ymwneud â chleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

Polisi Gwaith Dilynol a Sicrwydd

Fel arfer, caiff pryderon sy'n rhan o'r categorïau uchod eu huwchgyfeirio i lefel uwch o fewn corff iechyd neu ddarparwr annibynnol er mwyn mynd i'r afael â hwy ar unwaith.

Yn gyffredinol, ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'n pryderon trwy gyfeirio'r unigolyn at y sefydliad/corff perthnasol er mwyn mynd i'r afael â'i bryder. Efallai y bydd angen inni wneud cais am wybodaeth bellach fel y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu mewn modd mwy effeithiol. Er enghraifft, gall gwybodaeth am wardiau penodol yn hytrach na phryder cyffredinol am ysbyty ein helpu i ganolbwyntio ein hymweliadau arolygu yn unol â hyn.

Caiff ein holl bryderon eu cofnodi ar ein cofnodion sefydliadol ac mae rheolwyr perthynas yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o bryderon a godir ynghylch eu sefydliadau er mwyn llywio'r broses gynllunio flynyddol, yn ogystal â'r cyfarfod risg ac uwchgyfeirio misol.

b. Gwybodaeth a gasglwyd gan y rheolwyr perthynas

Mae gan AGIC reolwyr perthynas ar gyfer pob bwrdd iechyd ac ar gyfer y sector annibynnol. Mae'r rheolwyr perthynas yn un pwynt cyswllt ar gyfer bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth / darparwr annibynnol gydag AGIC. Mae rheolwyr perthynas yn mynychu cyfarfodydd byrddau iechyd, megis cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch / Diogelwch Cleifion, i gael sicrwydd ynghylch y ffordd y mae'r bwrdd iechyd yn ceisio sicrhau ei hun fod gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae rheolwyr perthynas AGIC hefyd yn ymgysylltu â sefydliadau partner yn rheolaidd (er enghraifft, Swyddfa Archwilio Cymru, cynghorau iechyd cymuned ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) i rannu safbwyntiau a gwybodaeth am y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth.

Mae rheolwyr perthynas AGIC yn mynychu cyfarfodydd byrddau iechyd / ymddiriedolaethau llawn yn flynyddol i gyflwyno canfyddiadau adroddiad blynyddol AGIC. Mae hyn yn sicrhau y caiff unrhyw themâu neu dueddiadau a nodir yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r bwrdd.

Mae'r rheolwyr perthynas yn crynhoi'r holl themâu a phryderon mewn perthynas â'r bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth y mae AGIC yn ymwybodol ohonynt o bob ffynhonnell (gan gynnwys arolygiadau) bob mis, ac yn cyfeirio hyn at Bwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio AGIC. Maent hefyd yn crynhoi'r themâu a'r pryderon ynghylch y sefydliad sy'n cyfrannu at safbwynt AGIC ynglŷn â statws uwchgyfeirio'r sefydliad cyn y cyfarfodydd uwchgyfeirio ac ymyrryd.

Polisi Gwaith Dilynol a Sicrwydd

Llywodraethu

Caiff unrhyw weithgarwch dilynol arfaethedig ei ychwanegu at 'gronfa ddata olrhain' AGIC. Cyn i unrhyw weithgaredd gael ei gynnal, bydd AGIC yn asesu a ellir ei gyfiawnhau mewn perthynas â rhaglenni gwaith eraill a pheryglon adnabyddus ar draws Cymru. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal mewn un o ddwy ffordd:

- Os bydd gweithgaredd dilynol arfaethedig yn digwydd yn ystod y flwyddyn arolygu nesaf, bydd ei fudd yn cael ei asesu fel rhan o'r prosesau cynllunio ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd rheolwyr perthynas yn chwarae rôl wrth asesu blaenoriaethau perthnasol ar gyfer rhaglenni gwaith ymhob safle gofal iechyd.
- Bydd gweithgaredd dilynol a arfaethwyd yn yr un flwyddyn â'r arolygiad gwreiddiol yn cael ei awdurdodi gan Bwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio AGIC. Bydd y pwyllgor hwn yn ystyried y rhaglen ddilynol ar gyfer y flwyddyn yn fisol, gan dderbyn gwybodaeth o gronfa ddata olrhain AGIC ynghylch gweithgareddau a gynigiwyd gan reolwyr arolygu.

Polisi Gwaith Dilynol a Sicrwydd

Atodiad 1 – Enghreifftiau o fathau o weithgareddau dilynol a rhesymeg debygol ¹

Math o weithgaredd	Rhesymeg/Canllawiau
Nid oes angen unrhyw waith dilynol	Sicrheir AGIC bod y darparwr gofal iechyd wedi cymryd y camau angenrheidiol.
Gwneud cais am ddiweddariad ynghylch cyflwyno'r cynllun gwella	Mae'r darparwr gofal iechyd wedi nodi nad yw rhai o'r camau gweithredu y mae angen iddo eu cymryd yn gallu cael eu cyflawni yn syth. Os nad ystyrir y materion hyn yn ddifrifol ac nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion (e.e. dangos arwyddion a diweddarau polisi), gall AGIC wneud cais am ddiweddariad ar gynnydd ar adeg benodol yn y dyfodol (e.e. mewn tri mis).
Ymweliad galw heibio i wirio'r camau a gymerwyd	Efallai bydd y dull hwn yn briodol lle y gellir defnyddio arsylwad syml i sefydlu a oes camau gweithredu wedi cael eu cymryd. Er enghraifft, pe bai angen i AGIC wirio a wnaed gwelliannau amlwg i ardaloedd clinigol/cleifion.
Cwblhau arolygiad sy'n canolbwyntio ar y camau gofynnol	Efallai y bydd AGIC yn ystyried bod angen cynnal arolygiad â phwyslais penodol er mwyn gwirio a yw camau, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, wedi'u cymryd. Yn y lle cyntaf, dylai AGIC ystyried y buddion (o ran anghenion adnoddau) o gynnal arolygiad sy'n canolbwyntio ar broblemau a ddaeth i'r amlwg yn yr arolygiad gwreiddiol yn unig.
Cwblhau arolygiad llawn	Efallai y bydd arolygiad llawn yn briodol mewn sawl sefyllfa, gan gynnwys y canlynol:

¹Mae'r canllawiau hyn yn nodi sawl math o weithgarwch cyffredinol. Ni fwriedir iddynt fod yn llwyr gyfarwyddol. Mae AGIC yn cadw'r hawl i gwblhau gweithgarwch dilynol gwahanol lle yr ystyrir bod hyn yn angenrheidiol.

Polisi Gwaith Dilynol a Sicrwydd

Math o weithgaredd	Rhesymeg/Canllawiau
	<ul style="list-style-type: none"> • Lle y mae materion difrifol yn ymwneud â diogelwch cleifion wedi'u nodi ac y mae angen gwaith dilynol llawn arnynt • Er mwyn rhoi materion llywodraethu/rheoli ehangach ar brawf • Er mwyn gweld a oes problemau o'r arolygiad gwreiddiol yn bresennol mewn ardaloedd clinigol eraill <p>Gellir cynnal arolygiad dilynol llawn yn yr un maes gwasanaeth a lleoliad â'r arolygiad gwreiddiol, neu gellir ei gynnal mewn maes gwasanaeth neu leoliad gwahanol i wirio a yw gwersi wedi cael eu rhannu.</p> <p>Ni fyddai arolygiad llawn yn gyfyngedig i'r materion a nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol.</p>
Cyfeirio at asiantaeth arall	<p>Efallai bydd yn briodol i AGIC atgyfeirio mater penodol ar gyfer archwilio gan asiantaeth arall. Mae esiamplau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhannu gwybodaeth â'r cyngor iechyd cymuned lleol lle y mae materion yn ymwneud yn llwyr â phrofiad y claf a lle y gallai aelodau o'r cyngor iechyd cymuned wirio a oes gwelliannau wedi'u gwneud, e.e. lle y bydd materion yn ymwneud â dewis/ansawdd bwyd • Cyfranogiad Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol neu faterion ariannol